

PRIFYSGOL BANGOR – MEINCNODAU A DANGOSYDDION ASESU AR GYFER DYRCHAFU I SWYDD DARLLENYDD A CHADAIR BERSONOL

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r meini prawf meincnod disgwylidig ar gyfer pob maes cais.

YMCHWIL	
Meincnodau	Dangosyddion
<i>Yn achos ceisiadau am ddyrchafiad i lefel Darllenydd ac Athro dylai tystiolaeth ddangos (os yw'n briodol) gyfran uchel o gynnyrch o ansawdd uchel, trylwyredd a gwreiddioldeb a phroffil cenedlaethol/rhyngwladol. Dylai ceisiadau am Gadair Bersonol hefyd ddangos tystiolaeth o ddylanwad ac arweinyddiaeth mewn ymchwil.</i>	
Hanes o gyhoeddi ymchwil, yn rheolaidd a pharhaus, mewn cyhoeddiadau uchel eu hansawdd.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Awduraeth flaenllaw i ymchwil sydd wedi'i chyhoeddi mewn cylchgronau a adolygwyd gan arbenigwyr, fel penodau llyfrau neu fel monograffau, neu mewn cyfryngau priodol eraill. ▪ Mewn cerddoriaeth ac ysgrifennu creadigol, tystiolaeth o weithgaredd a chydabyddiaeth a fo'n briodol i lefel y cymhwysiad. ▪ Dylai staff sy'n dymuno cael eu hystyried am ddyrchafiad i raddfa Darllenydd ddangos eu bod yn dechrau dod i fri'n rhyngwladol.
Tystiolaeth o gyfrannu ar lefel briodol yn y maes pwnc, aelodaeth o gyrff proffesiynol a/neu ganmoliaeth gan gyrff allanol.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Aelodaeth o bwyllgorau cenedlaethol ▪ Aelodaeth o fyrddau golygyddol, os yw hynny'n briodol i'r maes. ▪ Statws fel adolygwr a/neu ganolwr yng nghyswllt cylchgronau cenedlaethol. ▪ Hanes o drefnu cynadleddau academaidd neu o gyfrannu atynt.
Tystiolaeth o roi arweiniad a Goruchwyliath mewn ymchwil	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Arwain grwpiau ymchwil, os yw hynny'n briodol i'r maes. ▪ Cynnal portffolio o weithgaredd ymchwil, datblygu cynigion ymchwil, a rheoli cynigion ymchwil, fel y bo hynny'n briodol i'r maes. ▪ Mentora staff ar ddechrau eu gyrfa. ▪ Goruchwylio myfyrwyr PhD hyd nes iddynt gwblhau eu gwaith. ▪ Arwain a chyfrannu at ddatblygiad strategaeth ymchwil neu gefnogaeth ymchwil a rhwydwaith mewnol o fewn y Coleg, Ysgol neu uned. ▪ Tystiolaeth o hwyluso, gwella ag ysbrydoli gwaith eraill.
Llwyddiant o ran sicrhau cyllid allanol, fel y bo'n briodol i'r maes pwnc	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Nifer cyson o geisiadau i gyrff cyllido ymchwil cydnabyddedig, gyda chanran o lwyddiant sy'n briodol i'r ddisgyblaeth. ▪ Lle bo hynny'n briodol, tystiolaeth o Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth ac o ddatblygu eiddo deallusol, yn cynnwys patentau.

ADDYSGU A DYSGU	
Meincnodau	Dangosyddion – <i>bydd rhai elfennau'n fwy perthnasol (er nad ydynt yn neilltuol) i'r rheiny sy'n bennaf yn arbenigwyr mewn addysgu a dysgu.</i>
<p><i>Dylai staff sy'n gwneud cais am Gadair Bersonol ddangos arweinyddiaeth a chyfraniad cyson ar lefel Brifysgol a dylanwad ac enw da cyson ar lefel Gymreig/DU ac, yn ddelfrydol, ar lefel ryngwladol. Mae'n debygol y bydd ymgeiswyr ar y lefel hon yn cael eu hystyried yn arweinwyr a rhai i'w hefelychu o fewn y Brifysgol ac yn allanol. Yn achos ceisiadau am raddfeydd Darllenydd ac Athro dylai tystiolaeth o ysgolheictod yn y maes hwn ddangos (os yw'n briodol) cyfran uchel o gynnyrch a ystyrir yn rhagorol o ran gwreiddioldeb, pwysigrwydd a thrylwyrred. Rhaid i rai sy'n ymgeisio am ddyrchafiad i raddfa Darllenydd ddangos eu bod yn dechrau dod i fri fel arweinwyr yn y maes hwn.</i></p>	
<p>Tystiolaeth o arloesi wrth addysgu ac o ddatblygu cyrsiau, cynllunio a gweinyddu cyrsiau ar lefelau is-radd ac ôl-radd</p>	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Arweinyddiaeth a mentora o ran ansawdd y cyrsiau a'r addysgu. ▪ Arweinyddiaeth mewn mentrau adrannol sy'n gwella addysgu e.e. Cynghorydd Dysgu PGCertHE . ▪ Datblygu deunyddiau neu dulliau addysgu newydd sy'n dylanwadu ar bedagogeg y pwnc o fewn a thu hwnt i'r Brifysgol. ▪ Datblygu deunyddiau addysgu newydd, neu ddangos y gallu i arwain gwaith arloesol o ran datblygu neu foderneiddio cwricwlwm y pwnc. ▪ Cyfrifoldeb am ddatblygu dulliau arloesol o gynllunio cyrsiau, addysgu a dysgu ac ymarfer asesu. ▪ Datblygu dulliau arloesol o addysgu a dysgu, er enghraifft, o ran cynllunio cyrsiau neu asesu, fel y bo'n briodol i'r maes pwnc. ▪ Cyfraniad arwyddocaol at gynlluniau datblygu dysgu neu weithgareddau sy'n fuddiol i eraill o fewn yr Coleg/Ysgol. ▪ Tystiolaeth o arolygu cwricwlaidd parhaus o bwys (QA1, QA2) i addasu a datblygu parthau dysgu newydd. ▪ Adolygu cynnwys a deunyddiau cyrsiau a, lle bo hynny'n briodol, datblygu, cynllunio a diweddarau deunyddiau. ▪ Cymryd rhan mewn asesiadau sicrhau ansawdd academaidd, er enghraifft, panelau dilysu o fewn y Brifysgol neu'n allanol. ▪ Cyfraniadau helaeth a chyson sydd wedi dylanwadu ar y modd y dysgir y pwnc o fewn y ddisgyblaeth/ Coleg. ▪ Cyfraniadau helaeth a chyson at ddatblygu a defnyddio'r amgylchedd dysgu rhithwir a ffurfiau eraill ar dechnolegau dysgu, os yw hynny'n briodol i'r maes pwnc. ▪ Gweithio fel arloesydd/ hyrwyddwr mewn Addysgu a Dysgu ag ymrwymiad myfyrwyr ar draws y sefydliad. Arwain cyfraniad at ddatblygu a chynllunio cwricwlwm. ▪ Hyrwyddo dulliau sy'n cynnal amgylchedd dysgu cynhwysol (yn cynnwys addysgu yn y Gymraeg).

<p>Tystiolaeth o gyfraniadau arwyddocaol at bedagogeg y maes pwnc/ ymarfer proffesiynol</p>	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyfraniadau helaeth a chyson at ddatblygu a chyflwyno deunydd yn y maes pwnc personol, a chyfrannu'n addysgol ar lefel Ysgol/ Coleg/ Prifysgol, ac yn allanol. ▪ Cymryd rhan mewn addysgu a dysgu ar lefel genedlaethol, er enghraifft, cynnal gweithdai neu gyrsiau arbenigol mewn prifysgolion eraill. ▪ Arwain datblygiad polisi yn y Brifysgol. ▪ Cyflwyniadau mewn cynadleddau ar bedagogeg. ▪ Datblygu cydweithredu o ran addysgu ar draws ffiniau pynciau a disgyblaethau. ▪ O Fedi 2018 disgwylir i staff fod wedi derbyn achrediad AAU i lefel Cymrawd neu achrediad Prif Gymrawd ar gyfer staff sydd ar gytundeb Dysgu ag Ysgolheictod. ▪ Tystiolaeth o hwyluso, gwella ag ysbrydoli gwaith eraill.
<p>Ysgolheictod yn gysylltiedig ag addysgu a dysgu</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Arwain ar awduraeth llyfrau, cyhoeddiadau mewn cylchgronau a adolygwyd gan arbenigwyr a/neu erthyglau eraill a/neu drafodaethau cynhadledd sy'n briodol i'r maes.
<p>Tystiolaeth o addysgu o ansawdd uchel</p>	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Tystiolaeth o adborth gan fyfyrwyr a chan gydweithwyr er mwyn gwerthuso a datblygu addysgu. Cydnabyddiaeth trwy enwebiad yn Gymrawd Dysgu. ▪ Rhagoriaeth mewn addysgu, wedi'i phrofi o dystiolaeth o broffil addysgu, arsylwi gan gydweithwyr, adborth gan fyfyrwyr, gwobr addysgu, neu o ffynonellau eraill a fo'n briodol i'r maes pwnc. ▪ Tystiolaeth o ddatblygu medrau aelodau eraill o staff o fewn y Brifysgol o ran addysgu. ▪ Tystiolaeth o ymrwymiad helaeth i ddatblygiad proffesiynol parhaus o ran addysgu a dysgu. ▪ Datblygiad cyson o fethodoleg sy'n cefnogi amgylchedd ddysgu cynwysedig yn y Brifysgol.

CHYFRANIAD ARWEINYDDIAETH & EHANGACH

Meincnodau

Dangosyddion

Rhaid i geisiadau am raddfa Darllenydd a Chadair Bersonol gael eu cefnogi gan dystiolaeth o arweinyddiaeth gyson fan leiaf ar lefel Brifysgol a dangos cyfraniadau ar draws rhychwant amcanion strategol y Brifysgol. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol bod rhai mewn swyddi cadeiriol a darllenyddion fel rheol yn rhoi arweiniad, felly dylai ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o hwyluso, gwella ac ysbrydoli gwaith cydweithwyr ar draws yr ystod o ddyletswyddau academaidd.

Cyfrannu at waith rheoli a gweinyddu'r Brifysgol

- Cyfraniadau helaeth a chyson o safon uchel at reolaeth academaidd a/neu lunio polisiau, ar lefel Ysgol, Coleg a'r Brifysgol.
- Cyfraniadau helaeth a chyson at gynllunio, trefn lywodraethol neu reolaeth academaidd, ar lefel Ysgol neu Goleg.
- Tystiolaeth o swyddogaeth reolaethol (e.e. Cyfarwyddwr Addysgu neu Ymchwil, Uwch Diwtor, Swyddog Arholiadau, Tiwtor Derbyn) ar lefel Ysgol neu Goleg.
- Cyfraniadau helaeth a chyson at ymdrin ag agweddau ar brofiad myfyrwyr (e.e. y Gwobr Cyflogadwyedd).
- Cyfraniadau helaeth a chyson at recriwtio a myfyrwyr a dal gafael ynddynt tu hwnt i'r Brifysgol.
- Arwain projectau o fewn Ysgol neu Goleg, a all gynnwys grwpiau rhyngddisgyblaethol.
- Chwarae rhan weithgar helaeth a chyson o ran meithrin datblygiad aelodau llai profiad o'r staff a'u hannog.
- Cyfraniadau helaeth a chyson at genhadaeth y Brifysgol i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, a'r iaith Gymraeg.

Codi Proffil y Brifysgol

- Cyfraniad cysgon at gychwyn neu gynnal cysylltiadau rhwng y Brifysgol a grwpiau allanol neu'r gymuned.
- Swyddogaeth ymgynghorol ar gyfer cyrff o fewn y llywodraeth.
- Arwain geithgareddau drydedd genhadaeth, neu wrth ddatblygu projectau sy'n cael effaith fasnachol, os yw hynny'n briodol i'r maes pwnc.
- Cyfraniadau helaeth a chyson at wella gallu yn y rhanbarth, e.e. fel a dystir gan weithgareddau trosglwyddo gwybodaeth.
- Cyfrannu at ddigwyddiadau marchnata a chyhoeddusrwydd.
- Cyfrannu at amcan y Brifysgol i gyd-weithio gyda SAUau yn y DU ac ymhellach.
- Cyfrannu at ddiwylliant ac at gyfoethogi diwylliant.
- Cyfrannu at genhadaeth y Brifysgol i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, a'r iaith Gymraeg, os yw hynny'n briodol i'r maes pwnc.
- Cyfrannu at ymrwymiad cymunedol.